Cefnogir gan
Lywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth
Bersonol Cymru (WASPI)

# Arweiniad ar ddatblygu Cytundebau Datgelu Data

I sefydliadau sydd ynghlwm ag amddiffyn, diogelwch, iechyd, addysg a lles cymdeithasol pobl yng Nghymru

(gan gynnwys sefydliadau yn y sector statudol, y sector preifat a'r trydydd sector)

Fersiwn 5.4 (Diweddariad 2026)

# Cynnwys

**Adran 1 – Y Broses Ddatblygu** **2**

Cyflwyniad....2

Pethau i'w hystyried cyn datblygu Cytundeb Datgelu Data (DDA)....2

Paratoi i ddatblygu DDA....3

Datblygu DDA....4

**Adran 2 – Llenwi'r templed DDA** **5**

Cyflwyniad....5

Tudalen deitl....5

Adran 1 – Cyflwyniad i'r DDA hwn....5

Adran 2 – Pwrpas y Datgeliad....5

Adran 3 – Partneriaid y cytundeb hwn....6

Adran 4 – Sail gyfreithiol....6

Adran 5 - Data a ddatgelwyd....6

Adran 6 – Diogelwch Gwybodaeth....7

Adran 7 – Manylion y datgeliad....7

Adran 8 – Hawliau Testunau'r Data....7

Adran 9 – Adolygu, Torri'r Rheolau a Therfynu'r Cytundeb hwn....7

Adran 10 – Llofnod y Cytundeb....8

Atodiad A – Geirfa Termau....8

# Adran 1 – Y Broses Ddatblygu

## Cyflwyniad

1.1 Paratowyd yr arweiniad hwn i gynorthwyo datblygiad **Cytundebau Diogelu Data (DDA)** dan y fframwaith cenedlaethol a ddarperir gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae'r ddogfen hon yn arbennig o berthnasol i'r templed CDD sydd ar gael ar wefan WASPI – www.waspi.llyw.cymru

1.2 Rhoddir egwyddorion y Cytundeb ar waith trwy ddull cydweithredol o ddatblygu cytundebau trwy ddefnyddio templedi WASPI. Mae arweiniad ar wahân ar gael ar gyfer mathau eraill o gytundebau WASPI.

1.3 Ni ddylid defnyddio Cytundebau Datgelu Data yn lle Protocolau Rhannu Gwybodaeth (ISPs). Maent at ddibenion ar wahân. Mae diagram llif wedi'i greu i helpu sefydliadau i ddeall pa fath o gytundeb sy'n ofynnol. Mae'r diagram llif ar gael ar wefan WASPI. Dylech ofyn am gyngor ychwanegol gan eich tîm Llywodraethu Gwybodaeth / Swyddog Diogelu Data.

1.4 Dyluniwyd ISPs i gynorthwyo rhannu dwy ffordd rhwng rheolyddion data, ac ar y llaw arall, dyluniwyd DDAs i gynorthwyo datgeliadau un ffordd rhwng rheolyddion data, hynny yw, lle nad oes rhannu ar y cyd. Mae'r ddau wedi'u dylunio i gynorthwyo digwyddiadau rheolaidd, yn hytrach nag achosion untro o rannu neu ddatgelu. Rhagwelir y bydd DDA fel arfer yn cynnwys dau sefydliad partner, ond efallai bydd achosion lle bydd sawl sefydliad partner yn rhan ohono.

1.5 **Nid yw DDAs yn disodli'r gofyniad am gontract rhwng y rheolwyr a'r proseswyr.** Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y math priodol o gytundeb neu gontract at eich tîm Llywodraethu Gwybodaeth neu Swyddog Diogelu Data.

1.6 Gellir cynnwys sefydliadau partner mewn sawl DDA, ond mae gan bob DDA gyd-destun penodol a phwrpas diffiniedig. Nid yw DDA yn disodli diwylliant o gydweithio ac ymgynghori, sy'n rhan hanfodol o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus effeithiol. Felly, dylid paratoi DDA gyda mewnbwn gan yr holl bartneriaid, ac ni ddylid eu drafftio ar eu pennau eu hunain.

## Pethau i'w hystyried cyn datblygu Cytundeb Datgelu Data (DDA)

1.7 Cyn dechrau datblygu DDA, dylech allu ateb 'ie' i'r canlynol:

| Cwestiwn / ystyriaeth | Rhagor o arweiniad / nodiadau |
|---|---|
| **Ydych chi wedi ymgynghori â'ch Swyddog Diogelu Data, yr Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth neu gyfwerth ynghylch a oes angen DDA?** | **Cyn dechrau datblygu DDA, rhaid i chi ofyn am gyngor gan unigolyn cymwys a/neu brofiadol.** |
| Cyn rhannu gwybodaeth bersonol, ydych chi wedi ystyried a oes angen cwblhau Asesiad Effaith Diogelu Data / Asesiad Effaith Preifatrwydd, yn ôl yr angen? | Arweiniad y Comisiynydd Gwybodaeth ar yr Asesiad Effaith Diogelu Data ac Erthygl 35 GDPR y DU.<br>Dylid trafod hyn â'ch adran Llywodraethu Gwybodaeth neu'r Swyddog Diogelu Data. |

| | |
|---|---|
| A yw'r data sy'n cael ei ddatgelu'n eich galluogi i adnabod yr unigolion? | Os nad yw'r data a ddatgelir yn eich galluogi i wybod pwy yw'r unigolion, nid oes angen DDA. |
| A yw'r data'n cael ei ddatgelu un ffordd am reswm penodol? | Bwriedir i Gytundebau Datgelu Data gael eu defnyddio pan fydd data personol yn cael ei **ddatgelu** (h.y. ei basio un ffordd) o un Rheolydd Data i'r llall am reswm penodol.<br><br>Dylid datblygu ISP i ddogfennu arferion sy'n cynnwys **rhannu rheolaidd, cyfartal** (hynny yw, mae'r wybodaeth yn llifo yn ôl ac ymlaen rhwng sefydliadau) gwybodaeth bersonol rhwng Rheolyddion Data. Mae arweiniad a thempledi ar wahân ar gael ar wefan WASPI i helpu â phrosesau datblygu ISP.<br><br>Dylech drafod hyn â'ch adran Llywodraethu Gwybodaeth neu'r Swyddog Diogelu Data. |
| A yw partneriaid y DDA yn rheolyddion data, neu a oes unrhyw broseswyr data'n rhan ohono? | Rhaid i weithgareddau diogelu data gael eu hategu gan gontract sy'n cydymffurfio â GDPR y DU. |

1.8 Mae Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIA), sydd hefyd yn cael eu hadnabod yn Asesiadau Effaith Preifatrwydd, yn ofyniad cyfreithiol mewn rhai amgylchiadau, a dylid eu cynnal cyn rhannu. Mae DPIA yn eich galluogi i amlygu risgiau a mesurau lliniaru allweddol (gan gynnwys a oes angen DDA).

1.9 Gofynnwch am gyngor os nad ydych chi'n siŵr p'un a oes angen DDA; gall hyn fod gan eich Swyddog Diogelu Data neu unigolyn cymwys arall yn eich sefydliad. Gall tîm canolog WASPI ddarparu cyngor cyffredinol.

1.10 Bwriedir i Gytundebau Datgelu Data (DDA) gael eu defnyddio pan fydd data personol yn cael ei **ddatgelu** (hynny yw, ei basio un ffordd) o un Rheolydd Data i'r llall am reswm penodol. Ni fwriedir i DDAs gael eu defnyddio mewn achosion lle bydd y datgeliad o Reolydd Data i Brosesydd Data, ac nid ydynt yn disodli'r angen am gontractau priodol. Dylid datblygu ISP i ddogfennu arferion sy'n cynnwys **rhannu rheolaidd, cyfartal** (hynny yw, mae'r wybodaeth yn llifo yn ôl ac ymlaen rhwng sefydliadau) y wybodaeth bersonol rhwng Rheolyddion Data. Mae arweiniad a thempledi ar wahân ar gael ar wefan WASPI i helpu â phrosesau datblygu ISP.

1.11 Pan benderfynwyd bod angen DDA, dylid ystyried amlygu cysylltiadau perthnasol yn y sefydliadau partner. Mae'n bwysig eich bod yn datblygu'r Cytundeb ar y cyd â chynrychiolwyr o'r holl sefydliadau partner.

## Paratoi i ddatblygu DDA

1.12 Dylai'r holl bartneriaid gadw at yr egwyddorion a nodir yn y Cytundeb. Mae hyn yn dangos ymrwymiad i ddull cyson o rannu gwybodaeth bersonol. Nid yw llofnodi'r Cytundeb yn rhagofyniad i ddatblygu Cytundeb Rhannu Data ond argymhellir yn gryf. Mae'r 'Datganiad Derbyn a Chyfranogi' ar gael ar wefan WASPI.

1.13 Dylid sefydlu cysylltiadau perthnasol mewn sefydliadau partner, a chytuno p'un a oes angen DDA. Dylid cytuno ar rolau a chyfrifoldebau yn ystod y broses o ddatblygu'r DDA yn y camau cynnar; e.e. pwy fydd yn arwain datblygiad y DDA, a fydd cynrychiolwyr y partneriaid yn cwrdd i drafod y DDA, a fydd cymysgedd o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfarfodydd ar-lein, neu a fydd y DDA yn cael ei ddatblygu gan un sefydliad a darparu adborth drwy e-bost.

## Datblygu DDA

1.14 Dylai cynrychiolwyr y sefydliadau partner gytuno ar bwrpas ac amcanion y DDA. Hefyd, dylai'r cynrychiolwyr gadarnhau p'un a yw eu sefydliad wedi llofnodi'r Cytundeb. Mae rhestr o'r sefydliadau sy'n cymryd rhan ar gael ar wefan WASPI.

1.15 Mae'r templed cytunedig ar gael ar wefan WASPI.

1.16 Pan gytunwyd ar ddrafft terfynol y DDA, dylai pob cynrychiolwr ei gyfeirio at eu Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth/Swyddog Diogelu Data perthnasol (neu gyfwerth) ar gyfer sylwadau a chytuno.

1.17 Nid oes angen i DDAs basio trwy broses sicrhau ansawdd. Dylai'r gwiriad gan arbenigwyr Llywodraethu Gwybodaeth fod yn ddigon i sicrhau bod DDAs cadarn yn cael eu datblygu.

1.18 Dylai sefydliadau partner gyfnewid copïau wedi'u llofnodi o'r ddogfen derfynol y cytunwyd arni.

# Adran 2 – Llenwi'r templed DDA

## Cyflwyniad

2.1 Mae'r adran hon yn trafod llenwi'r templed DDA, ac yn darparu arweiniad ar lenwi'r adrannau penodol.

2.2 Nod y DDAs yw amlygu a dogfennu:

- cwmpas a diben(ion) penodol datgelu gwybodaeth bersonol;
- y sefydliadau partner sydd ynghlwm;
- y sail gyfreithiol;
- y wybodaeth i'w rhannu; a'r
- ffynhonnell, dull, cyrchfan, amledd a chyfnod cadw'r trosglwyddiad.

2.3 Ni fydd DDAs wedi'u cymeradwyo'n cael eu cyhoeddi ar wefan WASPI. Eu bwriad yw bod yn gytundebau mwy uniongyrchol nad oes angen yr un prosesau sicrhau ansawdd ffurfiol arnynt ag ISPs

2.4 Mae templed DDA WASPI wedi cael ei lenwi o flaen llaw gyda thestun sylfaenol, ac mae'n dangos yn glir ym mhle y dylid rhoi gwybodaeth ychwanegol. **Ni ddylid newid y fformat a'r geiriau sylfaenol heb ymgynghori gyda'ch tîm llywodraethu gwybodaeth a'r tîm WASPI canolog.**

## Tudalen deitl

2.5 Darparwch deitl y DDA yn y blwch 'rhowch y manylion yma' cyntaf. Dylai adlewyrchu swyddogaeth y gwasanaeth / menter / prosiect / rhaglen.

2.6 Dylai'r awdur gadw rheolaeth ar y fersiynau wrth i'r ISP gael ei ddatblygu.

## Adran 1 – Cyflwyniad i'r DDA hwn

2.7 Mae'r adran hon wedi cael ei llenwi o flaen llaw gyda thestun sylfaenol. Rhaid ychwanegu'r manylion canlynol i ehangu ar gwmpas a phwrpas y DDA penodol.

2.8 Ym mharagraff **1.1**, nodwch enw'r gwasanaeth / menter / prosiect / rhaglen benodol y mae'r DDA yn berthnasol iddo – er enghraifft: Rhaglen Dechrau'n Deg – a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni. Ceisiwch fod yn gryno; dylai pwrpas y datgeliad gael ei fanylu yn adran 2.

2.9 Dylid cyfeirio at unrhyw ddogfennau rhannu gwybodaeth, ffurflenni neu arweiniad sy'n bodoli eisoes a ddefnyddir ar hyn o bryd gan sefydliadau partner, yn y DDA.

## Adran 2 – Pwrpas y Datgeliad

2.10 Ym mharagraff **2.1** esboniwch bwrpas penodol y datgeliad, beth mae'n ceisio ei gyflawni a pham mae'n angenrheidiol. Dylid ysgrifennu'r esboniadau hyn mewn ffordd sy'n galluogi rhywun heb unrhyw wybodaeth am y swyddogaeth neu'r gwasanaeth i ddeall ei ystyr a pham mae angen datgelu'r wybodaeth. Gellir cymryd y pwrpas o'ch DPIA os yw wedi'i gwblhau.

## Adran 3 – Partneriaid y cytundeb hwn

2.11 Ym mharagraff **3.1** nodwch enwau'r sefydliadau sydd ynghlwm â datgelu a derbyn y wybodaeth.

2.12 Argymhellir bod pob sefydliad partner yn penodi Rheolwr Cyfrifol sydd â digon o awdurdod lefel uwch yn eu maes gwasanaeth. Bydd ganddyn nhw gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y DDA yn cael ei weithredu, ei ledaenu, ei ddeall a bod ymarferwyr perthnasol yn ei roi ar waith.

## Adran 4 – Sail gyfreithiol

2.13 Mae'n hanfodol nodi sail gyfreithlon briodol ar gyfer datgelu data. Heb sail glir, ni all sefydliadau ddangos eu bod yn cwrdd ag egwyddor gyntaf GDPR y DU (Erthygl 5); 'cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder'.

2.14 Oherwydd bod potensial i'r GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018) ddarparu'r sail gyfreithlon berthnasol ar gyfer datgelu data, mae'n bwysig y ceisir cyngor priodol cyn drafftio DDA. Dylid hysbysu Swyddog Diogelu Data Sefydliadau (neu gyfwerth) am unrhyw ddatblygiad DDA.

2.15 Dylid sefydlu sail gyfreithlon cyn ymrwymo i unrhyw drefniadau sy'n cynnwys rhannu gwybodaeth yn rheolaidd. **Nid yw hyn yn atal data rhag cael eu rhannu mewn 'sefyllfaoedd brys' nac yn diystyru unrhyw weithdrefnau diogelu presennol neu weithdrefnau a phrosesau eraill a sefydlwyd i sicrhau y gellir gofalu am unigolion, eu trin neu eu hamddiffyn fel arall.**

2.16 Mae adran 'Sut i ddefnyddio'r tablau' wedi'i chynnwys i gynorthwyo dealltwriaeth o'r adran hon. Dylid darllen 'Sut i ddefnyddio'r tablau' cyn ceisio llenwi'r adran hon. Os erys ymholiadau ar yr adran hon ar ôl darllen hwn a'r canllaw hwn, dylech gysylltu â'ch tîm Llywodraethu Gwybodaeth / Swyddog Diogelu Data i gael cyngor.

2.17 Yn y tabl cyntaf, mewnosodwch y sail gyfreithlon y dibynnir arni ar gyfer prosesu cyffredinol. Mae'r seiliau cyfreithlon ar gael yn Erthygl 6, 9 a 10 o'r GDPR y DU a Phennod 2 o ran 2 o DPA 2018. Yn achos rhannu at ddibenion gorfodaeth cyfraith, cwblhewch dabl 2 gan ychwanegu'r amodau perthnasol. Dim ond pan fydd y prosesu gan awdurdod cymwys sy'n prosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith y bydd y tabl hwn yn berthnasol. Mae mwy o fanylion am y prosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith ar gael yn rhan 3 o DPA 2018. Mae canllawiau ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Adran 5 - Data a ddatgelwyd

2.18 Rhaid i sefydliadau partner allu egluro pam mae angen datgelu er mwyn cyflawni'r pwrpas(ion) a nodwyd. O dan yr egwyddor o 'leihau data', dim ond yr isafswm data sy'n angenrheidiol i gyflawni'r pwrpas a nodwyd y mae'n rhaid ei ddatgelu. Dylid adolygu hyn yn rheolaidd i sicrhau bod y data sy'n cael eu datgelu yn dal i fod yn berthnasol ac yn ofynnol.

2.19 Ym mharagraff **5.1** nodwch y math o ddata sy'n cael ei ddatgelu. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai sefydliadau allu rhestru'r mathau penodol o wybodaeth i'w datgelu. **Ni ddylech gynnwys data personol yn yr adran hon nac unrhyw le yn y templed.**

2.20 Mae'n arfer da i sefydliadau wirio ansawdd y wybodaeth cyn ei rhannu, er mwyn osgoi gwybodaeth anghywir rhag lledaenu ar draws systemau gwybodaeth sefydliadau eraill.

2.21 Os bydd data'n cael ei gywiro ar ôl ei ddatgelu, rhaid i'r rheolydd data roi gwybod i'r sefydliadau partner am y newid.

## Adran 6 – Diogelwch Gwybodaeth

2.22 Mae'r adran hon yn nhempled y DDA wedi'i llenwi o flaen llaw â thestun sylfaenol, felly nid oes angen ychwanegu unrhyw beth arall. Fodd bynnag, rhaid i bartneriaid sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

## Adran 7 – Manylion y datgeliad

2.23 Yn y tabl yn Adran 7, rhestrwch:

- Y system gyfrifiadurol neu'r strwythur ffeilio â llaw sy'n cadw'r data i'w ddatgelu a'r gyfarwyddeb / adran / tîm perthnasol sy'n gyfrifol am ei gyflenwi;

- Y dulliau penodol a gytunwyd ar gyfer datgelu'n ddiogel o'r ffynhonnell i'r cyrchfan. *E.e. Dulliau trosglwyddo electronig, fel porthol diogel, amgryptio, dulliau trosglwyddo anelectronig fel dosbarthu wedi'i gofnodi, dosbarthu â llaw, ac unrhyw ffurflenni/llythyrau/dogfennau papur a ddefnyddir i drosglwyddo data;*

- Y system gyfrifiadurol benodol neu'r system â llaw a fydd yn cadw'r wybodaeth yn y sefydliad(au) cyrchfan, a'r gyfarwyddeb / adran / tîm cyfrifol sy'n derbyn y data;

- Pa mor aml fydd y data'n cael ei ddatgelu. Darperir bocsys i'w ticio i'ch helpu, ond addaswch y rhain yn ôl yr angen; ac

- Y cyfnod cadw neu'r meini prawf a ddefnyddir i ddiffinio'r cyfnod cadw. Dylai hyn fod yn unol â pholisïau cadw'r sefydliad.

## Adran 8 – Hawliau Testunau'r Data

2.24 Mae'r adran hon yn nhempled yr ISP wedi'i llenwi o flaen llaw gyda thestun sylfaenol, felly nid oes angen i chi ychwanegu rhagor o wybodaeth. Fodd bynnag, rhaid i bartneriaid sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

## Adran 9 – Adolygu, Torri'r Rheolau a Therfynu'r Cytundeb hwn

2.25 Dylid adolygu'r DDAs bob dwy flynedd neu'n gynt os gwneir newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod y cytundebau'n parhau i fod yn berthnasol.

2.26 Enghreifftiau o sefyllfaoedd sy'n arwain at adolygiad:

- Newidiadau sylweddol i gwmpas y gwasanaeth, sy'n amrywio faint o wybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu, neu'r math o wybodaeth.
- Tor-data sylweddol (hynny yw, y gellir adrodd arno).
- Newid i'r sail gyfreithiol dros rannu gwybodaeth.

2.27 Dylid cytuno pwy fydd yn gyfrifol am adolygu'r DDA yn y camau datblygu cychwynnol.

2.28 Pan fydd sefydliad wedi torri telerau cytundeb, dylid rhoi gwybod i'r sefydliadau partner dan sylw am hyn. Dylai pob sefydliad sy'n rhan o'r cytundeb gael ei hysbysu a dylai drafod y goblygiadau a'r camau nesaf. Gall hyn arwain at hepgor y sefydliad o'r cytundeb neu at y rhannu gwybodaeth a nodir yn y cytundeb hwn ddod i ben.

2.29 Pan ddaw rhannu gwybodaeth i ben, dylai'r Partneriaid sy'n rhan o'r cytundeb gytuno ar y rolau a'r cyfrifoldebau, gan gynnwys a fydd yr wybodaeth yn cael ei dileu neu ei dychwelyd.

## Adran 10 – Llofnod y Cytundeb

2.30 Unwaith y bydd yr holl sefydliadau partner wedi cytuno ar y DDA a'i adolygu gan yr arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth / Swyddog Diogelu Data perthnasol ar gyfer pob sefydliad, dylai pob sefydliad partner drefnu bod unigolyn perthnasol yn llofnodi'r DDA y cytunwyd arno. Mae derbyn y cytundeb trwy ei lofnodi yn elfen allweddol o ddangos 'atebolrwydd' o dan GDPR y DU.

2.31 Mater i bartneriaid yw penderfynu sut i reoli'r broses lofnodi; h.y. a oes angen llofnodi'r copi caled o'r ISP yn gorfforol neu a yw llofnodion electronig yn ddigonol.

2.32 Dylai'r llofnodwr fod yn berson unigol ag awdurdod i lofnodi'r DDA ar ran y sefydliad, a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio os caiff ei gyfathrebu trwy'r sefydliad. Gwiriwch â'ch adran Llywodraethu Gwybodaeth neu Swyddog Diogelu Data os ydych chi'n ansicr pwy ddylai lofnodi.

## Atodiad A – Geirfa Termau

2.33 Mae geirfa'n diffinio cyfeiriadau cyffredin. Gellir ychwanegu at hon os oes angen, ond ni ddylid dileu eitemau fel arfer.